OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 746 (Cy.101)

Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Partneriaeth Cymru (Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol) 2012

Gwnaed - - - -	*7 Mawrth 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Mawrth 2012*
Yn dod i rym - -	*3 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 72(5)(e) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

Yn unol ag adran 72(6) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chyngor Partneriaeth Cymru(**2**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Partneriaeth Cymru (Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Ebrill 2012.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Byrddau Iechyd Lleol" ("*Local Health Boards*") yw'r Byrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**3**); ac

ystyr "Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ("*National Health Service Trusts*") yw'r Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**4**).

(**1**) 2006 p.32.

(**2**) Mae cyfeiriadau at "Cyngor Partneriaeth Cymru" yn cyfeirio at y corff a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru ac sy'n cael ei gynnal ganddynt o dan adran 72(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) 2006 p.42. *Gweler*Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009, O.S. 2009/778 (Cy. 66). Diwygiodd y Gorchymyn hwn yr Atodlen i Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003, O.S. 2003/148 (Cy.18).

(**4**) *Gweler*Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009, O.S. 2009/2058 (Cy.177), Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993, O.S. 1993/2838, a